# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR SIR CEREDIGION
## DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847
## (ADRAN 21)

## CARNIFAL TREGARON 2025

---

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn canlynol o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 er mwyn atal rhwystro, ac ati.

YN GYMAINT AG Y BYDD rhannau o'r ffordd sy'n dwyn yr enw C1098 Tregaron yn sir Ceredigion yn llawn o bobl ac yn agored i gael eu rhwystro rhwng 1 y prynhawn a 10 y nos ar ddydd Sadwrn, 2il Awst 2025 yn sgil Carnifal Tregaron,

Mae Cyngor Sir Ceredigion, yn unol â'r pwerau a roddwyd gan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN A CHYFARWYDDO y bydd y rheoliadau canlynol yn cael eu parchu er mwyn atal y ffyrdd a nodwyd rhag cael eu rhwystro ar y diwrnodau a nodwyd:-

1. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a geir yn erthygl 3 a 4, bydd rhannau o'r ffordd sy'n dwyn yr enw C1098 Tregaron yn sir Ceredigion ar gau i draffig cerbydau, gan gynnwys beiciau, rhwng 1 y prynhawn a 10 y nos ar ddydd Sadwrn, 2il Awst 2025.
2. Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o bwynt i'r gorllewin o'r man lle bydd y ffordd ar gau fydd teithio ar hyd y A485 (Heol yr Orsaf) i gyfeiriad y de am oddeutu 350 o fetrau hyd at ei chyffordd â'r B4343. Troi i'r chwith i'r B4343 a theithio i bwynt i'r dwyrain o'r man lle bydd y ffordd ar gau. Cyfanswm o tua 700 o fetrau. Caniateir mynediad i gerddwyr ar bob adeg.
3. Bydd darpariaethau erthygl 1 yn berthnasol dim ond yn ystod yr amserau a dim ond i'r graddau y bo'r cyfyngiadau hyn y cyfeirir atynt yn yr erthygl yn cael eu dynodi gan arwyddion traffig a stiwardiaid dynodedig.
4. Nid oes dim yn erthygl 1 o'r gorchymyn hwn a fydd yn berthnasol i gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir mewn perthynas â'r digwyddiad sydd wedi achosi'r gorchymyn hwn, neu unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu.

Y gosb am fynd yn groes i'r Rheoliadau hyn yw dirwy na fydd yn fwy na mil o bunnau.

Dyddiad: 21 o fis Gorffennaf 2025

Elin Prysor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron